



**FFURFLEN GAIS I GYRCHU DATA GWRTHRYCH**

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan unigolion sy'n dymuno gwneud cais am ddata personol yn ymwneud â nhw eu hunain ac a ddelir gan Brifysgol Cymru yn unig, a dylid anfon y ffi briodol a dau fath o ddogfen adnabod gyda hi, fel y manylir isod. Dan y Ddeddf Diogelu Data (1998) mae gennych chi hawl i dderbyn ymateb o fewn 40 diwrnod, ac eithrio gwyliau banc.

Cwblhewch yr holl wybodaeth bersonol angenrheidiol yn Rhan A. Bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu ni i leoli eich data personol.

**RHAN A**

**MANYLION PERSONOL**

**Teitl** (*Mr, Ms, Dr etc*)

**Enwau cyntaf** (*tanlinellwch yr un a ddefnyddir gan amlaf os nad hwnnw yw'r enw cyntaf*)

**Cyfenw**  
(*ac enw morwynol, os yw'n berthnasol*)

**Cyfeiriad(au) ebost**

**Rhif(au) ffôn**

**Cyfeiriad gohebiaeth**  
(*gyda chod post*)

**TALU AC ADNABOD**

Dylech anfon y ffi gweinyddu cyrchu gwrthrych briodol sef £10 sterling naill ai mewn siec neu archeb bost yn daladwy i Prifysgol Cymru. Pan fyddwn ni'n derbyn y ffi a'r dogfennau adnabod priodol gallwn ddechrau prosesu eich cais.

At ddibenion Adnabod bydd y Brifysgol am gael copïau o ddau fath o ddogfen hunaniaeth, a all gynnwys: Tystysgrif Geni, Pasbort, Trwydded Yrru neu Gerdyn Adnabod. Bydd methu â darparu'r wybodaeth hon yn oedi'r broses ymhellach oherwydd ni wnaiff y Brifysgol ryddhau data personol i chi oni bai ei bod yn gwbl fodlon mai chi ydych chi.

**DATGELU I DRYDYDD PARTI**

Os ydych chi wedi cyfarwyddo trydydd parti i weithredu ar eich rhan, gwnewch yn siŵr fod gan y trydydd parti dan sylw lythyr o awdurdod sy'n galluogi Prifysgol Cymru i wneud y datgeliad i'r unigolyn / cwmni enwebedig ar eich rhan. Heb lythyr o awdurdod, ni fydd modd i ni brosesu eich cais.

## RHAN B

## DATA PERSONOL Y GWNEIR CAIS AMDANO

Nodwch mor fanwl ag y gallwch pa fath o wybodaeth rydych chi'n ei cheisio. Os ydych chi neu os oeddech chi'n fyfyrwr, nodwch hefyd pa gwrs/cyrsiau y buoch chi'n eu dilyn, a lle bo'n briodol, y flwyddyn / blynyddoedd graddio; os ydych yn aelod o staff, nodwch y teitl / teitlau swydd perthnasol. Bydd yr wybodaeth hon yn gymorth i ni ymateb i'ch ymholiad yn amserol ac yn gywir.

--

## Rhan B – Datganiad

Nodwch, drwy dicio'r blwch priodol isod:

- Fi yw gwrthrych y data a enwir yn Rhan A y ddogfen hon ac rwyf i drwy hyn yn gwneud cais, dan ddarpariaethau Adran 7(1) Deddf Diogelu Data 1998, i Brifysgol Cymru ddarparu copi i mi o wybodaeth bersonol a ddelir amdanaf i dan ddarpariaethau'r Ddeddf, sydd yn fy nghynnwys i yn wrthrych y data.
- Fi yw'r unigolyn awdurdodedig dilys, yn gweithredu ar ran gwrthrych y data ac rwyf i'n amgáu fy llythyr o awdurdod sy'n caniatáu'r datgeliad

Llofnod:	Dyddiad:
----------	----------

Caiff yr wybodaeth ar y ffurflen hon ei chadw gan y Brifysgol yn unol â'i Hamserlen Cadw. Gellir defnyddio gwybodaeth am y math cyffredinol o gais a wneir mewn modd dienw i lunio adroddiadau trosolwg i gynorthwyo â datblygu polisi diogelu data'r Brifysgol yn y dyfodol.

**Anfonwch eich cais at y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth, Y Gofrestrfa, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS, gan nodi ar yr amlen "Cais Cyrchu Gwrthrych Data: CYFRINACHOL"**

*At ddibenion swyddfa'n unig*

Cyfeirnod		Dyddiad derbyn	
Ffi'n daladwy	Siec / Archeb Bost	Dyddiad datgelu	
Adnabod	(1)	(2)	
Datgeliad Trydydd Parti	Ie / Na	Llythyr o Awdurdod	Ie / Na